**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1450
Ein cyf/Our ref EM/05746/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

Deisebau@senedd.cymru

08 Gorffennaf 2024

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Mai ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1450 - Llywodraeth Cymru i weithredu i amddiffyn pobl rhag heintiau a drosglwyddir drwy'r awyr mewn lleoliadau gofal iechyd.

Rwyf am ymdrin â phob un o feysydd penodol y ddeiseb yn eu tro:

**Gwella ansawdd aer mewn lleoliadau iechyd a lleoliadau gofal cymdeithasol drwy fynd i'r afael ag awyru, hidlo aer a sterileiddio:**

Mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn parhau i gyflwyno mesurau i wella ansawdd aer ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae awyru a hidlo effeithiol yn allweddol i gyflawni hyn, a thrwy wneud hynny, er mwyn lleihau y risg o heintiau. Dyma rai camau gweithredu allweddol sydd wedi'u cynnal:

- Cyhoeddi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru newydd (WHTM) 03-01 – Awyru Arbenigol ar gyfer Safleoedd Gofal Iechyd Rhan A a Rhan B sy'n ymdrin â dylunio, dilysu, a pherfformiad gweithredol. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi argymhellion manwl o ran awyru ar gyfer pob safle gofal iechyd, gan gynnwys safleoedd gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol.
- Mae pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG yng Nghymru wedi penodi Personau Awdurdodedig ar gyfer awyru. Mae'r rhain yn sicrhau bod gosod, cynnal a chadw a monitro systemau yn cyrraedd y safon cydymffurfio.
- Mae Grwpiau Diogelwch Awyru ar waith ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG yng Nghymru. Mae gan y grwpiau hyn gyfrifoldeb i sicrhau bod pob system awyru yn cael ei dylunio, ei gosod, ei phrofi a'i chynnal yn unol â'r canllawiau.
- Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn darparu gwasanaeth Peiriannydd Awdurdodi – Awyru sy'n cael ei benodi fel

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cynghorydd annibynnol gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG i gynnal asesiadau o Bersonau Awdurdodedig, systemau archwilio a'u rheolaeth weithredol gysylltiedig. Mae'r Peiriannydd Awdurdodi hefyd yn aelod o'r Grŵp Diogelwch Awyru.

- Mae peirianwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn cynnal archwiliadau dilysu llawn o'r systemau awyru arbenigol pan gânt eu gosod yn y lle cyntaf. Yn ogystal, maent yn cynnal gwiriadau ar offer awyru critigol yn flynyddol a chaiff contractwyr allanol hefyd eu comisiynu i gyflawni'r gwaith hwn sy'n sicrhau bod yr holl systemau awyru arbenigol yn cael eu cynnwys.

O ran sterileiddio, gan gynnwys puro aer drwy hidlwyr Gronynnau Aer Effeithlonrwydd Uchel (HEPA), mae gwaith yn parhau ar y cyd â GIG Lloegr a Gwella'r GIG a gweddill GIG y DU, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau, i ddilysu eu heffeithiolrwydd mewn lleoliadau gofal iechyd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi rhannu cyhoeddiadau cynghorol â'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar drosglwyddiadau heintiau a chyfeirio'n glir at bwysigrwydd systemau awyru effeithiol i leihau'r risgiau hyn a gwella ansawdd aer.

Mae lleoliadau gofal cymdeithasol, megis cartrefi gofal, yn gartrefi i bobl ac nid ydynt yn lleoliadau clinigol. Dim ond ar gyfer lleoliadau gofal iechyd yn unig y mae termau 'hidlo aer' a 'sterileiddio' mewn perthynas ag ansawdd aer yn berthnasol.

Yn unol ag adran 44(4)(a) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig sicrhau bod safleoedd yn hygyrch ac wedi eu goleuo, eu gwresogi a'u hawyru'n ddigonol. Mae'r corff rheoleiddio, sef Arolygiaeth Gofal Cymru, yn arolygu'r gwasanaethau yn rheolaidd ac mae'r amgylchedd yn un o'r meysydd yr adroddir amdano.

**Ailgyflwyno gwisgo masgiau fel mater o drefn yn y lleoliadau hynny (yn unol ag argymhelliad Sefydliad Iechyd y Byd ar 20 Rhag 2023), yn enwedig masgiau anadlol:**

Mae canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mesurau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) gan gynnwys Covid-19 ar gyfer Lleoliadau Iechyd a Gofal - CYMRU yn rhoi cyngor manwl ynghylch y defnydd priodol o fasgiau wyneb mewn lleoliadau clinigol. Mae'n nodi y dylai staff iechyd a gofal barhau i wisgo masgiau llawfeddygol gwrth-hylif (math IIR) pan fyddant yn gweithio mewn llwybrau gofal anadlol ac yn gofalu yn glinigol am bobl yr amheuir bod ganddynt Covid-19 neu'r ffliw neu pan fo'r heintiau hynny wedi'u cadarnhau. Ym mhob maes gofal clinigol arall, dylai pawb wisgo masgiau pan fo trosglwyddiad posibl o glwstwr o achosion o haint anadlol acíwt, neu drosglwyddiad wedi'i gadarnhau, er enghraifft, yn ystod achos lluosog neu frigiad o achosion, a/neu pan ddaw amrywiolyn Covid-19 newydd sy'n peri pryder i'r amlwg. Dylid hefyd ystyried gwisgo masgiau mewn lleoliadau pan fo cleifion yn wynebu risg uchel o haint o ganlyniad i system imiwnedd gwan, er enghraifft oncoleg / hematoleg. Dylai hyn gael ei arwain gan asesiadau risg lleol ac mae'n cynnwys staff gofal sylfaenol a gofal cymunedol.

Cafodd y canllawiau hyn eu hadolygu gan arbenigwyr atal a rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ôl i amrywiolyn Covid-19 JN.1 ddod i'r amlwg. Ystyriwyd bryd hynny bod y canllawiau'n parhau'n briodol.

**Ailgyflwyno profion Covid fel mater o drefn - mae'n asymptomatig;**

Yn unol â'n strategaeth hirdymor ar gyfer byw'n ddiogel gyda Covid-19, mae mynediad at brofion am ddim bellach yn canolbwyntio ar gefnogi rheolaeth glinigol pobl sy'n gymwys i gael triniaethau gwrthfeirol. I'r mwyafrif o bobl sydd â symptomau haint anadlol (gan

gynnwys Covid-19) mae ein canllawiau i bobl sydd â symptomau haint anadlol, gan gynnwys Covid-19 yn rhoi cyngor ar sut i reoli symptomau a sut i atal heintiau rhag cael eu trosglwyddo ymhellach. Gan fod gennym bellach lefelau uchel o imiwnedd i Covid-19 ymysg y boblogaeth, nid yw profion rheolaidd bellach yn cael eu hystyried yn briodol. Mae'r rhai sydd fwyaf agored i salwch difrifol yn sgil cael Covid-19 yn parhau i gael eu hamddiffyn drwy frechiadau rheolaidd a chael profion a thriniaeth am ddim.

**Sicrhau bod llawlyfrau staff yn cynnwys atal haint a gludir yn yr awyr yn llawn:**

Mae'r Llawlyfr Cenedlaethol ar Atal a Rheoli Heintiau (NIPCM) - Iechyd Cyhoeddus Cymru (GIG.cymru) (yn Saesneg unig) a Mesurau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) gan gynnwys Covid-19 ar gyfer Lleoliadau Iechyd a Gofal - CYMRU yn ymdrin ag atal heintiau a drosglwyddir drwy’r awyr.

**Darparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd am ddefnyddio masgiau anadlol a hidlo aer HEPA yn erbyn heintiau a drosglwyddir drwy’r awyr:**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd ynghylch pob clefyd trosglwyddadwy, gan gynnwys heintiau a drosglwyddir drwy’r awyr. Mae ein canllawiau i'r cyhoedd ar reoli heintiau anadlol acíwt yn cynnwys pa bryd y byddai ystyried gwisgo masg wyneb yn briodol.

O ran puro aer drwy hidlwyr HEPA, mae gwaith yn parhau ar y cyd â'r GIG, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau i ddilysu eu heffeithiolrwydd mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae cynlluniau treialu o ran eu defnydd yn y GIG yng Nghymru yn cael eu cynnal ar y cyd â sawl bwrdd iechyd i ddilysu eu heffeithiolrwydd.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Cabinet Secretary for Health and Social Care
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol